Cyngor Sir Benfro

Cynllun Corfforaethol 2020-21

Rhagair gan yr Arweinydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol sy'n edrych ymlaen at y ffordd y byddwn yn cwrdd â'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Mae'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun eleni yn gwbl ddigynsail. Nid oes unrhyw un sy'n Aelod o'r Cyngor, neu sy'n gweithio iddo, wedi dod ar draws her i iechyd y cyhoedd ar yr un raddfa neu mor ddifrifol â COVID-19. Ond eto, rydym wedi ymateb i'r her hon ac, mewn partneriaeth â'n cymunedau a sefydliadau eraill, rydym wedi cyflawni rhai campau hynod o anghyffredin.

Dim ond 180 diwrnod yn unig sydd o ddyddiad y Cabinet hwn i'r adeg y cyhoeddodd y Cyngor y byddai ysgolion yn cau ym mis Mawrth 2020. Bydd adroddiadau yn y dyfodol fydd yn dogfennu sut yr ydym wedi diogelu bywydau drwy gydweithrediad ein cymunedau yn cloi i ddechrau ac yna'n ailagor gwasanaethau'n raddol. O safbwynt chwe mis, yr hyn sy'n fy nharo fwyaf yw'r ffordd yr ydym wedi tynnu ein sefydliad a'n cymuned at ei gilydd gydag un pwrpas.

Cyn COVID, roedd fy Nghabinet wedi sefydlu agenda glir drwy'r Rhaglen ar gyfer Gweinyddu ac roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd da arni, er bod Arolygiad diweddar Estyn yn tanlinellu pam mae'n rhaid i wella addysg – gan wneud Sir Benfro yn lle gwych i ddysgu, byw a thyfu – barhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni. Er bod yn rhaid i'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad ohono fod ein blaenoriaeth fwyaf brys, cyflawni'r Rhaglen Weinyddu yw ein blaenoriaeth allweddol o hyd. Rwyf yn hyderus mai un o'r pethau a etifeddwn o COVID-19 fydd dysgu oddi wrth yr argyfwng. Byddwn yn cwblhau taith drawsnewid ein sefydliad. Byddwn yn gwneud y gorau o dechnoleg a chyfleoedd cyfathrebu digidol. Fe fydd yna ddiwylliant sefydliadol newydd fydd yn cyfleu diben ac ysgogiad ein hymateb i COVID, fydd yn dysgu ac yn sicrhau canlyniadau i'n holl drigolion. Bydd ein perthynas â chymunedau yn mynd o nerth i nerth, gan adeiladu ar y cyfalaf cymdeithasol a'r caredigrwydd y mae ein cymunedau wedi'i ddangos.

Does dim o hyn yn bosibl heb adnoddau. Ni allaf ragweld yn union sut y bydd COVID-19 yn effeithio ar ein cyllid, ond mae'n hollol bosibl y bydd yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud arbedion effeithlonrwydd pellach yn y dyfodol. Rwyf yn hyderus, yn union fel mae'r Cyngor wedi ymdopi â degawd o gyni, tra'n diogelu gwasanaethau rheng flaen a'r rhai sy'n agored i niwed gymaint â phosibl, y byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

Mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn wynebu llawer o ansicrwydd, ond sut bynnag y bydd pethau dros weddill y flwyddyn, gwn y bydd y Cyngor hwn yn gweithredu'n ofalus er mwyn peidio â pheryglu iechyd y cyhoedd. Ni fyddwn yn hunanfodlon a byddwn yn gweithio'n ddiflino i ymgysylltu â chymunedau er mwyn sicrhau bod ymbellhau cymdeithasol yn cael ei barchu.

Yn olaf, ond nid lleiaf, hoffwn gofnodi fy niolch i Ian Westley, ein Prif Weithredwr, fydd yn ein gadael yn fuan. Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd ers blynyddoedd lawer ac wedi dod drwy storm COVID-19 gyda'n gilydd. Dymunaf yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Y Cynghorydd David Simpson
Arweinydd y Cyngor

Cynnwys

Datganiad o bwrpas rheoleiddiol....4
Cyd-destun y Cynllun Corfforaethol....5
Perthynas â chynllun adferiad COVID-19....5
Rhaglen ar gyfer Gweinyddu....6
Argymhellion Her Cymheiriaid Corfforaethol....6
Symud y rhaglen drawsnewid yn ei blaen....6
Tueddiadau tymor hir....7
Poblogaeth....7
Ymateb i dueddiadau newid yn y boblogaeth....7
Iechyd....7
Ymateb i dueddiadau iechyd....8
Swyddi, yr Economi a Manwerthu....8
Ymateb i dueddiadau economaidd....9
Y Newid yn yr Hinsawdd....9
Ymateb i dueddiadau yn y newid yn yr hinsawdd....10
Ymateb i dueddiadau tai....10
Ein Blaenoriaethau....11
Sir Benfro, lle gwych i ddysgu, byw a thyfu....12
Gofal Cymdeithasol: Byddwn yn gwneud beth bynnag a allwn i gynorthwyo pobl i fyw'r bywyd gorau y gallant tra'n canolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel....15
Economaidd: Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hybu Sir Benfro fel lle gwych i ymweld, byw a gweithio....17
Tai: Gwneud cartrefi fforddiadwy, gweddus a hyblyg yn bosibl i bawb mewn lleoliadau cynaliadwy....21
Byddwn yn hybu balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle ar gyfer ansawdd amgylcheddol eithriadol....23
Trawsnewid – Technoleg, Diwylliant a Pherthnasau....25
Technoleg....25
Diwylliant....26
Perthnasau....**Error! Bookmark not defined.**
Blaenoriaethau o ran adnoddau....27
Cyllideb 2020-21....27
Cymryd rhan....30

Datganiad o bwrpas rheoleiddiol

Mae'r cynllun hwn yn cyflawni ein dyletswydd o dan Adran 9 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i sicrhau gwelliant parhaus.

Rydym yn rhagweld y bydd y Senedd, yn ystod 2020-21, yn ystyried Bil Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Os daw yn ddeddf, bydd hyn yn moderneiddio'r ffordd yr ydym yn cyhoeddi ein blaenoriaethau, yn adrodd ar ein perfformiad ac yn parhau i fod yn atebol i drigolion a rhanddeiliaid eraill a bydd yn diddymu Mesur 2009.

Rydym bob amser yn awyddus i glywed eich barn. Os oes gennych unrhyw adborth ar y cynllun hwn neu pe baech yn hoffi cyfrannu at ddatblygu amcanion llesiant yn y dyfodol, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio'r manylion a roddir isod.

Gellwch olrhain ein perfformiad diweddar yn erbyn y cynllun hwn drwy edrych ar adroddiadau rheoli perfformiad integredig sy'n mynd i'r Cabinet ac i'n Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu bob chwarter.

Am gopi o'r ddogfen hon mewn **print bras, Braille, tâp sain, hawdd ei darllen** neu **iaith arall**, neu i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Dan Shaw
Rheolwr Cynllunio Corfforaethol
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Ffôn: 01437 775857
policy@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk

Cyd-destun y Cynllun Corfforaethol

Mae'r adran hon yn gosod cyd-destun strategol y Cynllun Corfforaethol. Mae'r cyd-destun hwn ar gyfer 2020/21 yn wahanol iawn oherwydd yr angen i barhau i ymateb i argyfwng COVID-19.

Perthynas â chynllun adferiad COVID-19

Mae COVID 19 yn arwain at gyfres ddigynsail o newidiadau o ran sut yr ydym yn byw ein bywydau a sut y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae COVID-19 a'r angen i achub bywydau, fel sy'n briodol, wedi bod yn ganolog, a bydd angen ystyried yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd o ganlyniad fel rhan o adferiad Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro fel sefydliad.

Er bod cyfraddau heintio wedi gostwng yng Nghymru ers eu huchafbwynt, mae'n amlwg bod cyfraddau heintio COVID 19 ledled y byd ar gynnydd. Nid oes lle i laesu dwylo ac mae perygl gwirioneddol o ail don mewn cyfraddau heintio. Yn erbyn y cefndir hwn, rhaid i'n prosesau cynllunio busnes arferol weithredu'n wahanol iawn; ein prif amcan o hyd yw sicrhau diogelwch, cefnogaeth a lles hirdymor ein cymunedau, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Adfer Strategol yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2020. Mae'r Cynllun yn gwahaniaethu rhwng y cyfnod o ymateb i COVID 19 a'r cyfnod o adferiad a fydd yn rhedeg ochr yn ochr ag ef i ddechrau. Nid oes modd pennu cyfnod pendant ar gyfer y cyfnod pontio hwn; rhaid i gynlluniau ymateb ac adfer gael blaenoriaeth yn y tymor byr dros y Cynllun Corfforaethol. Mae "Egwyddorion Adfer o Argyfwng COVID 19" y Cabinet yn atgyfnerthu'r amcanion hyn ac yn mapio sut y cedwir y cydbwysedd rhwng gwneud penderfyniadau cyflym a chadw rheolaeth ddemocrataidd.

Amcanion i gefnogi'r Rhaglen Adferiad

- Sicrhau diogelwch, cefnogaeth a lles hirdymor ein cymunedau, yn enwedig i'r rhai mwyaf agored i niwed.
- Darparu ymateb cyfreithlon ac effeithiol i adferiad sy'n sicrhau cydymffurfiaeth, ac sy'n rhoi hyder a sicrwydd.
- Adfer patrymau bywyd mor agos i'r arfer â phosibl, i gynifer o bobl ag sydd modd, ac mor gyflym a theg ag y gellir.
- Datblygu sir o gymunedau a busnesau gwydn, dyfeisgar a ffyniannus, gan adeiladu ar y cyfalaf cymdeithasol a darparu'r 'caredigrwydd' yn ein cymunedau a ddangoswyd yn ystod y pandemig.
- Cydgysylltu'r adferiad ehangach ymhlith asiantaethau a ymatebodd a'r Cyngor i gyd-fynd â threfniadau adfer Cenedlaethol.
- Lobïo i ddylanwadu ar drefniadau adfer Cenedlaethol a pholisi a chanllawiau cysylltiedig y Llywodraeth.
- Adfer parhad dysgu a gwasanaethau addysg cysylltiedig i bawb.
- Cefnogi'r gwaith o lunio ac ailadeiladu economi Sir Benfro drwy weithio gydag unigolion a busnesau i fanteisio ar gyfleoedd posibl a lliniaru bygythiadau.
- Adlinio amcanion, blaenoriaethau a pholisïau sefydliadol strategol allweddol â "realiti'r byd newydd".

- Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) sy'n gallu addasu i gyfnodau'r ymateb – digwyddiad (argyfwng), adferiad a sefyllfa sefydlog.
- Gwella cysylltedd a dealltwriaeth ddigidol ar draws y Sir, a defnyddio Technoleg Cyfathrebu Gwybodaeth i annog y symudiad oddi wrth ryngweithiadau traddodiadol.
- Datblygu sefydliad cadarn, cynaliadwy, diogel, modern ac effeithlon, sy'n ymwybodol o heriau'r dyfodol a'r gallu i ymateb yn unol â hynny.
- Gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda, yn ystwyth iawn, yn hyblyg ac amlddisgyblaethol, gyda'r galluoedd a'r gwerthoedd i ymateb i heriau ac anghenion y sefydliad yn y dyfodol o fewn diwylliant sy'n seiliedig ar ddysgu, pwrpas a chanlyniadau.
- Diogelu tryloywder a hyder drwy sicrhau bod pob penderfyniad, cam gweithredu, dewis a rhesymeg yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn amserol.

Rhaglen ar gyfer Gweinyddu

Mae'r Rhaglen ar gyfer Gweinyddu yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd. Mae'r Cabinet wedi nodi ei fod o'r farn bod y cyfeiriad a osodwyd ganddo ym mis Ebrill 2018 yn dal yn berthnasol hyd at etholiadau nesaf y Cyngor ym mis Mai 2022.

Argymhellion Her Cymheiriaid Corfforaethol

Ym mis Chwefror 2020, ymgymerodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a thîm o uwch swyddogion ac aelodau profiadol, â Her Cymheiriaid Corfforaethol. Amcan hyn oedd rhoi mwy o ddealltwriaeth o sut y gall yr Awdurdod wella drwy asesu ei arweinyddiaeth, ei lywodraethu, ei adnoddau a'i allu. Ystyriwyd canlyniadau'r Her Cymheiriaid gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Mai 2020.

Gwnaeth yr Her Cymheiriaid ddeuddeg argymhelliad sy'n amrywio o'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda chymunedau, drwodd at wella prosesau corfforaethol, perthnasau ar lefel uwch arweinwyr a sut rydym yn ymgymryd â thrawsnewid, gan gynnwys cyfathrebu. Mae cynllun gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu i ymdrin â'r argymhellion hyn a chyflwynir diweddariadau i'r Cabinet.

Rydym yn rhagweld y bydd yn ofynnol i ni gynnal "Asesiad Panel" fel rhan o gynigion yn y Bil Llywodraeth Leol ac mae'r Her Cymheiriaid Corfforaethol wedi rhoi profiad gwerthfawr inni o sut y gellir cyflawni/datblygu hyn.

Symud y rhaglen drawsnewid yn ei blaen

Mae argyfwng COVID-19 wedi newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio ac wedi cyflymu'r tueddiadau oedd yn bod eisoes tuag at fwy o weithio doethach, mwy o ddefnydd o weithio digidol a newidiadau yn niwylliant y sefydliad.

Tueddiadau tymor hir

Er bod COVID-19 yn parhau i darfu a newid y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, mae llawer o dueddiadau hirdymor oedd yn bod eisoes yn parhau. Mewn llawer o achosion mae COVID 19 wedi dwysáu a chyflymu'r tueddiadau hyn yn hytrach na'u troi yn ôl. Her neilltuol yw bod hyn yn cynnwys ehangu anghydraddoldebau.

Rydym yn cadw golwg ar dueddiadau hirdymor fel rhan o gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy ddeall y tueddiadau hyn gallwn wneud y gorau o gyfleoedd yn ogystal â gosod mesurau ataliol ar waith i amddiffyn rhag heriau yn y dyfodol.

Poblogaeth

- Mae poblogaeth Sir Benfro wedi tyfu'n arafach na llawer o ardaloedd eraill ledled y DU. Fodd bynnag, roedd cyfraddau twf rhwng 2018 a 2019 yn gyflymach nag mewn blynyddoedd blaenorol.
- Mae'n bosibl y bydd COVID-19 yn arwain at newid mawr yng nghyfraddau twf y boblogaeth yn y dyfodol mewn ardaloedd trefol a gwledig gyda mwy o bobl yn symud i ardaloedd gwledig wrth i weithio gartref ddod yn llawer mwy cyffredin.
- Cyn COVID-19, roedd y cynnydd mewn disgwyliad oes yng Nghymru wedi arafu. Nid yw disgwyliad oes yn cynyddu bellach mewn llawer o wledydd datblygedig. http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/life-expectancy-mortality-in-wales-2020
- Disgwylir o hyd i boblogaeth Sir Benfro barhau i heneiddio gyda chyfran gynyddol fawr o bobl yn yr ystod oedran hynaf. Mae hyn yn debygol o sbarduno'r galw am ofal cymdeithasol.
- Mae anghydraddoldebau iechyd wedi cynyddu ychydig a bu ehangu ar y gwahaniaeth mewn cyfraddau marwolaethau rhwng cwintelau amddifadedd. Mae COVID-19, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol y clo, yn debygol o waethygu'r duedd hon.

Ymateb i dueddiadau newid yn y boblogaeth

- Yn y tymor byr gallwn ddisgwyl cynnydd yn y galw am ailalluogi ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau lleoedd ychwanegol yn y tymor byr ac mae gennym gynlluniau tymor canolig/hir hefyd.
- Mae tueddiadau poblogaeth wedi cael eu gweithio i mewn i'r Cynllun Datblygu Lleol ar Adnau. Mae'r amcangyfrif a ddefnyddiwyd o dwf yn y dyfodol yn adlewyrchu gweledigaeth y Cynllun ac mae'n gyson â phoblogaeth sy'n tyfu'n gyflymach.

Iechyd

- Cyfleoedd drwy welliannau mewn technoleg feddygol ar gyfer triniaeth yn ogystal â gwella mynediad at wasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig.
- Mae llawer mwy o gydnabyddiaeth o'r agenda iechyd meddwl a lles gan gyrff cyhoeddus a phroffil llawer uwch gan sefydliadau cymorth yn y gymuned. Fodd bynnag, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi "Nid yw'r agenda atal

yn mynd yn ei blaen ar y raddfa a'r cyflymder sydd ei angen ac nid yw'n canolbwyntio ar benderfynyddion ehangach iechyd."

- Mae llawdriniaethau arfaethedig wedi cael eu rhoi heibio dros dro o ganlyniad i COVID-19. Mae'n debygol y bydd rhai pobl hefyd wedi rhoi'r gorau i geisio cyngor meddygol / cael diagnosis cynnar o broblemau meddygol. Er mai dyfalu yn unig a allwn ar hyn o bryd ac edrych yn ôl ar bandemig blaenorol fel canllaw, mae'n debygol y bydd y saib hwn mewn gwasanaethau meddygol ataliol arferol yn arwain at fwy o afiechyd a chyflyrau cronig.
- Er bod nifer y bobl sydd wedi dal COVID-19 hyd yma wedi bod yn isel, a diolch am hynny, mae'n amlwg erbyn hyn fod y gyfran fach o bobl sy'n profi symptomau difrifol mewn perygl o niwed hirdymor o ganlyniad i'r clefyd.

Ymateb i dueddiadau iechyd

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o barhau i ddefnyddio technoleg fideo-gynadledda i gyflymu ymgynghoriadau. Mae gan hyn y potensial i'w gwneud yn haws i bobl mewn ardaloedd gwledig gael mynediad at ofal iechyd.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu tîm Dilyn, Olrhain ac Amddiffyn, i reoli'r risg y bydd COVID 19 yn lledaenu yn y gymuned.
- Mae cael mwy o bobl i fod yn fwy egnïol yn amlach yn rhan annatod o'r Strategaeth Hamdden ac mae hyn yn cael ei ategu gan fuddsoddiad cyfalaf. Dyfarnwyd grant Teithio Llesol o £1.2m i Gyngor Sir Penfro ar gyfer eleni.
- Rydym yn parhau i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Tair Blynedd ar Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac mae diweddariadau blynyddol a manylion ar gael ar ein gwefan. Mae Mynediad at Chwarae yn cyfrannu at iechyd a lles emosiynol plant.

Swyddi, yr Economi a Manwerthu

- Mae effaith lawn COVID-19 ar yr economi yn dal yn aneglur. Yn y tymor byr bydd crebachu sydyn ar draws yr economi leol. Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod yr economi wedi crebachu o 20.4% yn ail chwarter 2020 ac mae ei hamcangyfrifon GDP ar gyfer mis Mehefin yn dangos bod economi'r DU bellach 17.2% yn llai nag yr oedd ym mis Chwefror. Mae Banc Lloegr yn disgwyl y bydd yr economi'n parhau i ymadfer drwy gydol 2021, gan gyrraedd tua'r un maint ag yr oedd cyn-COVID ar ddiwedd 2021.
- Mae siopau manwerthu Brics a Morter yn wynebu heriau sylweddol. Cyn COVID, roedd swyddi manwerthu Dosbarth A wedi cynyddu ym mhob un o drefi Sir Benfro bron, gyda chyfraddau swyddi gwag yn uwch na 20% yn Hwlffordd, Doc Penfro, ac Aberdaugleddau a chyfradd o 19% yn Abergwaun. Mae COVID-19 wedi gwaethygu problemau gyda llawer llai o ymwelwyr a mwy o gystadleuaeth oddi wrth fanwerthwyr ar-lein. Nid yw'r heriau wedi'u cyfyngu i ganol trefi yn unig ac mae tuedd gynyddol o swyddi gwag mewn siopau manwerthu ar gyrion trefi.
- Roedd gwerth gwerthiannau ar-lein yn y DU cyn COVID eisoes yn uchel o'i gymharu â gwledydd eraill Ewrop. Rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2020 canfu'r ONS fod cyfran y gwariant ar-lein wedi cynyddu o 20.0% i 31.8%. Tyfodd busnes bwyd ar-lein OCADO o 50% bron mewn chwarter, gan ei alluogi i sicrhau twf yn y farchnad mewn ychydig fisoedd, yr oedd wedi disgwyl fyddai'n cymryd blynyddoedd i'w gyflawni.
- Ar draws yr economi, bu cynnydd mewn gweithio gartref a'r defnydd o dechnoleg i gysylltu cydweithwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd. Mae gan hyn y potensial i arwain at

newidiadau yn y lle mae pobl yn gweithio ac yn byw – llai o swyddfeydd o fewn dinasoedd a mwy o bobl yn gweithio'n bennaf o'u cartref ac yn barod i fyw'n llawer pellach, gan fynd i mewn i'r swyddfa yn achlysurol.
- Mae natur gwaith yn newid ac yn y dyfodol mae'n debygol y bydd llawer mwy o awtomeiddio mewn swyddi coler wen – Mae Penfro'r Chatbot yn enghraifft.
- Yn y tymor canolig a'r tymor hwy mae'n debygol y bydd COVID-19 yn cyflymu'r tueddiadau presennol megis twf mewn diwydiannau carbon isel. Mae'n debygol hefyd y bydd cytundebau masnach yn dilyn Brexit ym mis Ionawr 2020 yn dylanwadu ar y rhagolygon economaidd yn y tymor hwy.
- Mae'n debygol y bydd cynnydd sylweddol mewn diweithdra. Mae'r cynllun Ffyrlo wedi diogelu swyddi ond bydd yn dod i ben erbyn diwedd mis Hydref 2020, gan ychwanegu pwysau pellach am fwy o ddiweithdra. Dyblodd cyfradd nifer y bobl oedd yn Hawlio Budd-dal Diweithdra sir Benfro rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mehefin 2020 ac mae'n debygol o godi ymhellach drwy gydol y flwyddyn. Mae diwedd y cynllun Ffyrlo yn debygol o fod yn arwyddocaol – o fis Awst ymlaen roedd y gyfradd derbyn yn 34% o swyddi cymwys, y gyfradd bedwaredd uchaf yng Nghymru.
- Mae cyflog isel (fel y'i mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) yn broblem eang yn Sir Benfro ac mae cyfraddau cyflog yn gyson is na'r chwartel isaf ar gyfer awdurdodau ledled y DU.

Ymateb i dueddiadau economaidd

- Ysgrifennwyd Strategaeth Adferiad Economaidd ac atgynhyrchir elfennau allweddol o hon yn y Cynllun hwn. Mae'r strategaeth hon wedi'i strwythuro o amgylch pedair blaenoriaeth gyffredinol: Twristiaeth; Busnes; Lle; Cymuned, a gefnogir gan dair thema drawsbynciol, sef Seilwaith (Band Eang); Sgiliau a Chyflogadwyedd ac Argyfwng yr Hinsawdd.
- Dosbarthodd y Cyngor grantiau cymorth busnes gyda thros £50 miliwn wedi'i dalu erbyn dechrau mis Gorffennaf i fusnesau oedd yn cwrdd â phrif Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru, gyda grantiau pellach ar gael i ficro-fusnesau yn ogystal â Grantiau Diwylliant Caffi i gynorthwyo'r sector lletygarwch yng nghanol trefi i addasu i COVID-19.

Y Newid yn yr Hinsawdd

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd tystiolaeth fod cyflymder y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu ynghyd â mwy o effaith ar weithgarwch dynol. Mae enghreifftiau'n cynnwys amcangyfrifon ynghylch pa mor gyflym y mae lefelau'r môr yn codi o gwmpas y byd (amcangyfrifir bod y lefel yn codi 3 milimetr y flwyddyn, ond mae rhai amcangyfrifon yn nes at 5 milimetr) a chynnydd mewn tywydd eithafol ledled y ddaear.
- Disgwylir i Asesiad Risg Newid Hinsawdd nesaf Llywodraeth y DU gael ei gyhoeddi yn 2022. Mae'r adroddiad tystiolaeth i fod i gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2021. Bydd hyn yn darparu data a adolygwyd gan gymheiriaid ar y bygythiad a achosir gan y newid yn yr hinsawdd.
- Mae gan Gymru darged i gwrdd â 70% o'r ynni y mae'n ei ddefnyddio o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Daw hyn â manteision amgylcheddol ond mae hefyd yn rhoi cyfle i ardaloedd fel Sir Benfro sydd â photensial heb ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy (yn enwedig ynni adnewyddadwy morol).

- Mewn dirwasgiadau byd-eang blaenorol, megis yr un a ddilynodd argyfwng y banciau, cynyddodd allyriadau carbon wrth i'r economïau ddechrau adfer a gwledydd flaenoriaethu mathau rhatach o danwydd ffosil er mwyn cadw pris ynni'n isel. Er bod hyn yn parhau i fod yn risg, mae technoleg well wedi lleihau cost ynni adnewyddadwy yn ddramatig.

Ymateb i dueddiadau yn y newid yn yr hinsawdd

- Datgan argyfwng newid yn yr hinsawdd a sefydlu gweithgor i edrych ar y ffordd y gall Sir Benfro leihau ei hôl troed carbon yn sylweddol.
- Mae carbon isel yn rhan allweddol o gynlluniau economaidd yn y dyfodol. Un enghraifft yw datblygiad morol Doc Penfro lle bu Cyngor Sir Penfro yn llwyddiannus wrth arwain cais Her gwerth £2 miliwn ar gyfer prosiect Teyrnas Ynni Aberdaugleddau ym mis Chwefror 2020. Nod y cynllun hwn yw cyflymu'r broses o drosglwyddo i system ynni hydrogen ac ynni adnewyddadwy integredig, fydd yn gysylltiedig â'r clwstwr o seilwaith ynni mawr ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau. Enghraifft arall, sydd hefyd yn gysylltiedig â Bargen Dinas Bae Abertawe, yw prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
- Diddordeb cynyddol mewn bwyd lleol / wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy. Mae rhai grwpiau wedi gweld argyfwng COVID 19 yn cryfhau'r achos dros ddatblygu rhwydweithiau bwyd mwy gwydn a mwy lleol.

Tai

- Yr angen parhaus am dai fforddiadwy. Yn ystod 2019-20 cynyddodd prisiau tai cyfartalog (ar gyfer pob eiddo) yn Sir Benfro o £170 mil i £182 mil. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru a Lloegr yw £245 mil i £248 mil. Gan fod y cyfnod clo wedi dod i ben, bu galw mawr am dai yn Sir Benfro. Digwyddodd hyn mewn llawer o ardaloedd eraill a bydd angen data pellach i weld a fydd y cynnydd hwn ym mhrisiau tai a gwerthiannau yn cael ei gynnal.
- Bydd tai'n chwarae rhan mewn datgarboneiddio. Mae modd i inswleiddio gwell, safonau Passivhaus, gwahanol ddulliau adeiladu a phaneli haul leihau'r defnydd net o ynni yn sylweddol.
- Mae Asesiad y Farchnad Dai Leol (LHMA) 2019 yn nodi y bydd angen 10% o gartrefi a adeiladwyd i safonau Cartrefi Gydol Oes erbyn 2033, gan adlewyrchu'r nifer uwch o bobl anabl a ddisgwylir erbyn y dyddiad hwn.
- Mae gwneud gwell defnydd o'r stoc dai hefyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â thai fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys annog pobl i beidio â chael niferoedd uchel o ail gartrefi, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol ac annog dychwelyd cartrefi gwag i gael eu defnyddio.
- Mae argyfwng COVID 19 wedi canolbwyntio sylw ar y math mwyaf difrifol o ddigartrefedd, cysgu ar y stryd. Er bod y niferoedd yn fychan, mae nifer y rhai sy'n cysgu ar y stryd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ymateb i dueddiadau tai

- Caiff tueddiadau poblogaeth eu trosi'n ofynion tai ychwanegol gan y CDLl ar Adnau. Er mwyn bodloni gweledigaeth y Cynllun, mae 425 o gartrefi newydd y flwyddyn wedi eu cynllunio, tua dwbl y ffigur o amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru 2014 (wedi'u hail-seilio).

- Mae cynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn rhagdybio y caiff 390 o unedau tai cyngor newydd eu darparu dros y pum mlynedd nesaf.
- Mae premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi wedi'i bennu ar 50% ynghyd â phremiwm ar gartrefi sydd wedi bod yn wag ers dros 3 blynedd. Rhennir y cyllid a godir drwy bremiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi 50/50% rhwng Grant Gwella Sir Benfro ac ariannu tai fforddiadwy. Mae'r Cabinet wedi clustnodi'r adnoddau tai fforddiadwy hyn ar gyfer prosiect Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol yn Solfach.

Ein blaenoriaethau

Rydym wedi diwygio geiriad ein blaenoriaethau i gyd-fynd yn well â'r geiriad yn y Rhaglen Weinyddu. Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ail-eirio ein hamcan Addysg i adlewyrchu canfyddiadau canolog arolygiad Estyn 2019 yr Awdurdod Addysg Lleol a'n Strategaeth Addysg newydd - Sir Benfro yn lle gwych i ddysgu, byw a thyfu. Mae'r tabl isod yn cymharu amcanion llesiant 2019-20 a 2020-21.

Amcan Llesiant 2019-20	**Amcan Llesiant 2020-21**
Parhau i wella canlyniadau addysg fel bod pob plentyn yn cyflawni ac yn cyfrannu mwy nag yr oedd yn credu oedd yn bosibl.	Addysg: Sir Benfro yn lle gwych i ddysgu, byw a thyfu.
Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar atal: helpu pobl i gadw rheolaeth dros eu bywydau eu hunain yn hytrach na dod yn ddibynnol ar wasanaethau cymdeithasol.	Gofal Cymdeithasol: Byddwn yn gwneud beth bynnag a allwn i gefnogi pobl i fyw'r bywyd gorau y gallant tra'n canolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel.
Gwneud Sir Benfro yn gystadleuol yn economaidd, yn gynhyrchiol ac yn ffyniannus, yn lle gwych i ymweld, byw a gweithio.	Economaidd: Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Sir Benfro fel lle gwych i ymweld, byw a gweithio.
Darparu tai o ansawdd da i roi diogelwch, lles ac ansawdd bywyd i drigolion Sir Benfro.	Tai: Gwneud cartrefi fforddiadwy, gweddus ac addasadwy yn bosibl i bawb mewn lleoliadau cynaliadwy.
Byddwn yn hyrwyddo balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle am ansawdd amgylcheddol eithriadol.	Byddwn yn hyrwyddo balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle am ansawdd amgylcheddol eithriadol.
Trawsnewid: Technoleg; Diwylliant a Pherthynas.	Trawsnewid: Technoleg; Diwylliant a Pherthynas.

Sir Benfro, lle gwych i ddysgu, byw a thyfu

Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno'r elfennau allweddol fydd yn ein strategaeth Addysg newydd, *Sir Benfro, lle gwych i ddysgu, byw a thyfu*. Bydd y myfyrwyr hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n agored i niwed, neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, wedi wynebu heriau ychwanegol i ddatblygu eu haddysg yn ystod y cyfnod clo. Mae rhoi blaenoriaeth i les emosiynol yn hanfodol er mwyn addasu'n llwyddiannus i'r 'normal newydd'. Mae cau'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau bod eu lles emosiynol yn uchel yn nodweddion allweddol o'n strategaeth newydd, ac mae'r amserlen hefyd yn cwmpasu gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Ar wahân i'r strategaeth, mae gennym flaenoriaethau ar unwaith o ganlyniad i COVID-19. Mae arnom eisiau sicrhau y bydd dychwelyd i'r ysgol yn raddol ar gyfer pob disgybl a ddechreuodd ym mis Mehefin 2019 yn ddiogel i'r disgyblion ac i weithlu'r ysgol. Bydd newid i normal newydd ar gyfer dysgu; fydd hon ddim yn dasg syml gan nad yw adeiladau ysgolion wedi'u bwriadu ar gyfer ymbellhau cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc wedi bod yn ymgymryd â'r mwyafrif helaeth o'u dysgu gartref hyd at fis Gorffennaf 2020 a defnyddir dull cyfunol o ddysgu ar-lein a wyneb yn wyneb o fis Medi 2020. Mae'n bosibl y bydd ail don o COVID-19 yn arwain at darfu pellach ar ysgolion ac rydym wedi gweithio gyda Chyrff Llywodraethu i weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru i grwpio myfyrwyr yn swigod. Bydd hyn yn gymorth i gadw myfyrwyr yn ddiogel tra'n cadw trafferthion i lawr i'r eithaf.

Her arall yr ydym yn ei hwynebu yw bod ERW, y Consortiwm Gwella Addysg sy'n cwmpasu Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn debygol o gael ei ddiddymu. Mae un o aelodau'r consortiwm eisoes wedi gadael, ac mae awdurdodau eraill wedi rhoi rhybudd y byddant yn gadael ar ddiwedd 2020-21. Ymhen amser, mae'n debygol y bydd ERW yn cael ei ddisodli gan strwythur arall o'r enw Cyd-bwyllgor Corfforaethol, fydd yn gweithio ar sail ranbarthol. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae gwaith yn parhau ar ein rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, megis adeilad newydd ysgol Uwchradd Hwlffordd.

I lawer o blant a phobl ifanc mae Sir Benfro yn lle gwych i dyfu i fyny. Mae'r ddarpariaeth addysgol a chyflawniad dysgwyr yn gwella, ac mae'r cyngor hwn yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd ym maes chwaraeon, hamdden a diwylliant. Fodd bynnag, mae ein perfformiad yn parhau i fod yn rhy amrywiol. Mae angen inni barhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran cyflawniad, cyfranogiad a dilyniant, sydd, ar gyfer rhai grwpiau o bobl ifanc, yn parhau'n rhy isel yn Sir Benfro. Drwy 'Sir Benfro 2027 - ein gweledigaeth ar gyfer addysg a dysgu yn Sir Benfro' byddwn yn trawsnewid ein system addysg ac yn cyflawni ein hymrwymiad bod pob plentyn yn Sir Benfro yn mynychu ysgol dda.

Y canlyniadau disgwyliedig dros y pum mlynedd nesaf:

- Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad i le addas o safon uchel mewn addysg sy'n diwallu ei anghenion unigol.
- Bydd cyrhaeddiad addysgol ar ddiwedd pob cyfnod allweddol y gorau yng Nghymru ac yn cyd-fynd â pherfformiad y chwartel uchaf yn ninasoedd craidd y DU.

- Bydd pob plentyn yn gadael yr ysgol gynradd yn llythrennog ac yn rhifog yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer ei oedran.
- Bydd disgyblion o deuluoedd incwm isel yn cyflawni ar yr un lefel â'u cyfoedion – byddwn yn cau'r bwlch cyrhaeddiad.
- Bydd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cael mynediad at system well sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hasesu, a bod y ddarpariaeth angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny wedi ei chynllunio mewn ffordd fwy cydweithredol, cyson a theg.
- Bydd pob person ifanc yn ennill cymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd addysg statudol.
- Bydd pob person ifanc yn cwblhau addysg statudol gydag ystod dda o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac yn trosglwyddo'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Bydd pob person ifanc yn ddiogel a bydd eu lles emosiynol yn uchel.
- Bydd plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawl i gymryd rhan, i'w barn gael ei chlywed, a byddant yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau a gwasanaethau addysg o bob rhan o'r cyngor sy'n effeithio ar eu bywydau.

Camau Gweithredu

Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

- Canolbwyntio ar addysgu o safon ym mhob ystafell ddosbarth, bob dydd i wella deilliannau a chyflymu cynnydd pob disgybl.
- Darparu llwybrau sy'n briodol i anghenion dysgwyr, wedi'u gwreiddio yn y cwricwlwm i Gymru sy'n hyblyg ac yn addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gweithredu llwybrau newydd i ddysgwyr sydd mewn perygl.
- Herio a chefnogi ysgolion a phartneriaid ymhellach i wella deilliannau addysgol disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni, yn enwedig plant sy'n derbyn gofal, disgyblion o deuluoedd incwm isel, disgyblion sy'n fwy abl a dawnus, a'r disgyblion hynny ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Cyflwyno, addasu a sefydlu'r diwygiadau cenedlaethol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- At hynny, datblygu'r defnydd o asesu a'i gymhwyso i gyflymu dysgu ac i ategu ymarfer proffesiynol cryf ac atebolrwydd.
- Cydnabod, hwyluso ac annog ystod eang o gyfleoedd i rieni a gofalwyr ymddiddori a chymryd rhan ystyrlon yn addysg plant.
- Datblygu cyfleoedd a dulliau ymhellach i gasglu lleisiau plant a phobl ifanc er mwyn llywio datblygiad gwasanaethau.

Sut bydd yn edrych pan fydd yn dda?

Fe fyddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig neu well ym mhob cyfnod dysgu.
- Sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gynradd gydag ystod dda o gymwysterau.

- Cynyddu canran y disgyblion sy'n gadael addysg orfodol gydag ystod eang o gymwysterau.
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n trosglwyddo'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant parhaus ar ddiwedd addysg statudol (blwyddyn 11) ac ar ddiwedd blwyddyn 13.
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig neu'n well ym mhob cyfnod.
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim sy'n ennill sgôr pwyntiau cyfartalog o 40+ yn Gymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 ar ddiwedd blwyddyn 11.
- Gwella lefelau cyflawniad dysgwyr sy'n agored i niwed, yn unol â'u gofynion, eu hanghenion a'u dyheadau unigol. Yn benodol, disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion a addysgir 'heblaw yn yr ysgol', plant sy'n derbyn gofal, a dysgwyr mwy abl a dawnus.
- Cynnal lefelau presenoldeb mewn ysgolion yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'r fframwaith canlyniadau addysg yn nodi'r llinell sylfaen a'r gwelliannau y mae arnom eu hangen dros gyfnod o 5 mlynedd.

Gofal Cymdeithasol: Byddwn yn gwneud beth bynnag a allwn i gynorthwyo pobl i fyw'r bywyd gorau y gallant tra'n canolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel

Mae argyfwng COVID-19 wedi cael effaith uniongyrchol ar ofal cymdeithasol gan fod y bobl yr ydym yn eu cefnogi mewn perygl llawer mwy o'r clefyd. Yn ystod yr argyfwng, mae gofal cymdeithasol wedi ymwneud yn uniongyrchol â diogelu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r ganolfan ddarparwyr. Mae wedi cynorthwyo i gydlynu ymdrechion gwirfoddolwyr drwy'r ganolfan gymunedol ac wedi rhoi cymorth i bobl sy'n gwarchod eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi parhau i weithredu drwy gydol y cyfnod clo, ond mae rhai, megis Gofal Dydd, wedi gweithredu ar sail argyfwng.

Cyn COVID-19, disgrifid y system gofal cymdeithasol yn ei chyfanrwydd yn aml fel un mewn argyfwng ariannol. Mae COVID-19 wedi taflu goleuni cenedlaethol ar ba mor hanfodol yw gofal cymdeithasol i gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed, pa mor gydgysylltiedig ydyw â'r GIG, yn ogystal â materion cyflogau isel ymhlith y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae COVID hefyd wedi tynnu sylw a chymhlethu'r her i rai darparwyr o fod yn gynaliadwy yn y farchnad. Er ei bod yn hanfodol datrys y materion hyn, mae'r gost o wneud hynny'n enfawr a bydd angen gwneud hynny ar lefel genedlaethol.

Mae'n ddigon posibl y bydd y galw am ofal cymdeithasol statudol yn cynyddu o ganlyniad i COVID-19, naill ai oherwydd bod pobl sydd wedi'u heintio'n mynd yn ddifrifol wael ac angen gwellhad, neu'n anuniongyrchol, oherwydd bod y cyfnod clo wedi golygu nad ydynt wedi ymgysylltu â gwasanaethau ataliol ar gyfer iechyd meddyliol a chorfforol. Wrth i fetrigau iechyd lusgo y tu ôl i amser real, efallai y bydd maint effaith anuniongyrchol COVID-19 ar iechyd yn adeiladu dros amser.

Mae gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed wedi parhau i weithredu drwy'r argyfwng. Mae'r galw am wasanaethau i fynd i'r afael â cham-drin domestig (sy'n aml yn gysylltiedig â materion diogelu) wedi codi'n sydyn ledled y DU. Gall y galw gynyddu hefyd o ran gofal cymdeithasol i blant, gan y bydd effaith y cyfnod clo, ynghyd â'r cyfnod hir pan na chafodd plant fynediad at addysg wyneb yn wyneb a gweithwyr proffesiynol diogel, amddiffynnol, yn arwain at gynnydd disgwyliedig mewn atgyfeiriadau, wrth i faterion sy'n ymwneud â risg gael eu cyfleu drwy blant a dod yn fwy amlwg i weithwyr proffesiynol.

Mae'r ganolfan gymunedol yn dangos bod llawer iawn o gapasiti cymunedol y gellir manteisio arno er mwyn rhoi cymorth i bobl. Mae i hyn oblygiadau ehangach na gofal cymdeithasol a gallai wireddu'r uchelgais ym maes perthynas y rhaglen drawsnewid, i'r cyngor weithio drwyddo a chynorthwyo cymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol.

Camau gweithredu


- Nodi model newydd o gymorth cymunedol yn seiliedig ar lwyddiannau'r ganolfan gymunedol a fydd yn gwella lles pawb ac yn eu cadw rhag gorfod cael gafael ar wasanaethau statudol gyhyd ag y bo modd.
- Darparu dewisiadau cyfleoedd dydd newydd, yn seiliedig ar yr ymgynghori cyn y Covid a'r trefniadau gweithredu brys a ddilynodd.

- Darparu amrywiaeth o gyfleusterau llety newydd cyffrous i sicrhau bod ein pobl fwyaf agored i niwed yn gallu cael llety addas, sy'n cwrdd â'u hanghenion ac yn gwella eu lles.
- Creu modelau gweithredu newydd gan adeiladu ar lwyddiant y ganolfan ddarparwyr a chydweithio ag iechyd, iechyd y cyhoedd ac amddiffyn y cyhoedd, sy'n canolbwyntio ar farchnad y cartrefi gofal.
- Nodi a gweithredu ystod o fentrau i leihau amseroedd aros defnyddwyr gwasanaethau a gwella canlyniadau ar gyfer gwasanaethau megis Asesu Anghenion Gofal, Gofal Cartref, Gofal Preswyl ac Ailalluogi.
- Bydd y gwasanaethau i blant yn dilyn strategaeth ddiffiniedig i geisio lleihau nifer y plant mewn gofal, drwy geisio atal plant rhag dod i mewn i ofal ac, ar yr un pryd, ceisio dychwelyd plant sydd eisoes mewn gofal yn ddiogel yn ôl i ofal eu teuluoedd eu hunain.
- Sicrhau bod ein pobl fwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed a'u bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen mewn modd amserol.
- Defnyddio technoleg ddigidol i wella perfformiad gweithwyr a busnesau.
- Cydnabod pwysigrwydd bod pobl yn hyderus i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chyfathrebu digidol drwy hyrwyddo a datblygu sgiliau digidol fel blaenoriaeth.
- Datblygu gwasanaethau i bobl sy'n gwella eu lles ac yn eu hatal rhag gorfod defnyddio gwasanaethau statudol gyhyd ag y bo modd.

Mesurau

Rydym yn parhau i roi gwybodaeth wythnosol, fanwl i Lywodraeth Cymru am amrywiaeth o fetrigau sy'n canolbwyntio ar ymateb ac adferiad o COVID 19 a byddwn yn datblygu mesurau newydd drwy gydol y flwyddyn.

Economaidd: Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hybu Sir Benfro fel lle gwych i ymweld, byw a gweithio



Daw'r geiriad ar gyfer yr amcan hwn o'r Rhaglen Weinyddu ac mae hefyd yn adlewyrchu'r Cynllun Adferiad Economaidd drafft. Mae'n amcan eang gydag uchelgeisiau mawr ar gyfer newid dyfodol Sir Benfro er gwell drwy annog mwy o bobl iau medrus i aros neu ymgartrefu yn y Sir.

Mae COVID 19 yn debygol o gyflymu'r duedd bresennol o bobl fedrus ar draws amrywiaeth eang o broffesiynau yn gweithio gartref am y rhan fwyaf o'u hwythnos waith a dim ond ymweld â'u swyddfa yn achlysurol. Mae hyn yn cynnig cyfle sylweddol i Sir Benfro farchnata ei hun, ar sail ei hamgylchedd gwych a'i hansawdd bywyd, fel lleoliad i fyw i bobl fedrus sy'n gweithio o gartref yn bennaf. Mae cael gwell cysylltedd, yn enwedig drwy fand eang, yn allweddol i hyn.

Mae'r prif faterion sy'n wynebu'r economi leol wedi'u hegluro eisoes yn adran y Tueddiadau Hirdymor. Bydd COVID-19 yn cael effaith enfawr ar yr economi a bydd y strwythur ar gyfer ein cynllun adferiad: Cysylltedd; Cynnig; a Darganfod, yn gosod yr adferiad hwn ar sail gynaliadwy dros y tymor hir.

Cysylltiedig

- **Band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit ym mhob ardal erbyn 2023.** Ein huchelgais yw mai Sir Benfro fydd y Sir gyda'r cysylltedd digidol gorau yng Nghymru ac mae COVID-19 wedi pwysleisio pwysigrwydd band eang o ansawdd da. Rydym eisoes wedi troi at amrywiaeth o ffynonellau ariannu i hwyluso gwell band eang (megis Cronfa Her Rhwydweithiau Ffibr Llawn Lleol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) ac rydym wedi dyrannu £2 miliwn yn y rhaglen Gyfalaf i wneud hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyllid pellach a byddwn yn

cyflwyno Strategaeth Seilwaith Digidol i'r Cabinet ym mis Hydref, fydd yn manylu ar y ffordd y byddwn yn gwneud y gorau o gyfleoedd, gan gynnwys band eang cymunedol, cyfleoedd drwy Fargen Dinas Bae Abertawe a 5G.

- **Llundain yn syth ar y trên mewn llai na phedair awr.** Mae teithio ar y trên yn gynaliadwy ac yn galluogi pobl i weithio wrth iddynt deithio; mae'r amser teithio i Lundain ar hyn o bryd yn 4 awr 45 munud fel rheol. Byddwn yn chwarae rhan weithredol drwy lobïo ac fel rhan o gynllunio trafnidiaeth ranbarthol arfaethedig i gael buddsoddiad yn y rheilffyrdd sydd o fudd i sir Benfro. Bydd cerbydau deuol, diesel/trydan Hitachi newydd yn lleihau'r amser teithio o Lundain i Abertawe o 20 munud. Mae dyblu'r trac ger Abertawe wedi cynyddu capasiti. Amcangyfrifwyd y bydd gorsaf arfaethedig Parkway ar lein gangen Abertawe yn arbed 14 munud arall.

Cynnig

- **Canolfannau trefol cyffrous, bywiog.** Heb fuddsoddiad a chefnogaeth i newid, bydd canol ein trefi mwyaf yn parhau i ddirywio. Byddwn yn adeiladu ar ein dull manwl, blaenorol, o adfywio gyda buddsoddiad mewn cyfleusterau allweddol ac mae rhai o'r rhain wedi eu rhestru isod;
  - ✓ Hwlffordd: Gorllewin Quayside (Ocky Whites gynt). Ym mis Gorffennaf 2018 penderfynodd y Cabinet symud ymlaen i ailddatblygu'r safle allweddol hwn a fydd yn ategu llyfrgell ac oriel lwyddiannus Glan yr Afon. Yn ystod 2019/20 penodwyd ymgynghorwyr dylunio a pheirianneg gennym a chynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus ar ddyluniad y cynllun terfynol. Mae cwmpas y prosiect bellach wedi'i ehangu i gynnwys gwella'r amgylchfyd cyhoeddus cyfagos ac mae allan i dendr ar hyn o bryd. Mae gwerth y prosiect o fewn y rhaglen gyfalaf yn cynnwys £6,287,168 gyda £2,301,808 o gyllid allanol.



  - ✓ Castell Hwlffordd - Ein gweledigaeth ar gyfer y castell yw iddo chwarae rhan lawn yn y gwaith o adfywio'r dref sirol. Yn ystod 2020/21 a 2021/22 datblygir Cynllun Rheoli Cadwraeth, fydd yn llywio'r holl waith yn y dyfodol a newidiadau i'r castell er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn gofal priodol, yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae gwneud newidiadau i adeilad o'r fath bwysigrwydd yn cymryd amser a rhaid eu gwneud yn iawn a bydd cyfle i ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y comisiwn hwn.
  - ✓ Cei De Penfro. Byddwn yn adeiladu ar yr adborth a dderbyniasom yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019/20 i adfywio'r adeiladau hanesyddol hyn sy'n borth i Gastell Penfro. Mae'r gwaith wedi'i rannu'n gyfnodau a'r cyfnod cyntaf fydd sefydlogi'r adeiladau er mwyn atal dirywiad pellach neu gwymp posibl.
  - ✓ Hamdden. Er bod ein strategaeth hamdden yn canolbwyntio ar ddod y Sir fwyaf egnïol yng Nghymru, bydd buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden yn cynyddu bywiogrwydd trefi. Mae'r Cabinet wedi cytuno i fuddsoddi £4.2m mewn cyfleusterau hamdden newydd ar safle Ysgol Uwchradd Hwlffordd gynt (cyn STP) gan bwysleisio bod hyn yn parhau i fod yn amcan allweddol i'r Cyngor.

- **Cartref Ynni Gwyrdd Cymru.** Mae Bargen Dinas Bae Abertawe yn gyfle i gefnogi'r sector ynni, yn enwedig ynni adnewyddadwy morol. Mae Teyrnas Ynni Aberdaugleddau yn astudiaeth ddichonoldeb gwerth miliynau o bunnau i'r potensial i Sir Benfro a Gorllewin Cymru arwain y ffordd o ran cyflymu'r broses o drosglwyddo i system integredig o hydrogen ac ynni adnewyddadwy. Bydd yn gysylltiedig â'r clwstwr o seilwaith ynni mawr ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau.

- **Cymorth i gynigion Porthladd Rhydd ar gyfer Aberdaugleddau**. Mae porthladdoedd rhydd yn rhan o ymateb Llywodraeth y DU i Brexit fel rhan o'i chynlluniau i sicrhau lledaeniad twf economaidd. Credwn fod achos cryf dros ddatblygu Porthladd Rhydd yn Aberdaugleddau; cyfle trawsnewidiol fydd yn mynd i'r afael yn benodol â'r blaenoriaethau datgarboneiddio, adfywio a 'lefelu' a nodwyd gan Lywodraeth y DU. Yn ystod gweddill 2020/21 byddwn yn cyfrannu at gais am statws Porthladd Rhydd, gan adeiladu ar asesiad hyfywedd diweddar a gomisiynwyd gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Bydd angen gwaith partneriaeth cryf ar gyfer Porthladd Rhydd ac rydym yn ymroi i gefnogi – ac arwain yn ôl pob tebyg – ddatblygiad Cyfrwng Pwrpasol Arbennig i hwyluso hyn.

- **Y Gyrchfan a reolir orau yn y DU sy'n cynnwys y Parc Cenedlaethol Arfordirol**. Yn ystod 2020-21 rydym eisoes wedi sefydlu Timau Croesawu Ymwelwyr, wedi annog diwylliant caffi (gan gynnwys grantiau), ac wedi ymroi i reoli twristiaeth, yn enwedig mannau neu weithgareddau poblogaidd, megis gwersylla gwyllt.

- **Ffordd wych o fyw.** Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg sy'n hyrwyddo gweithio ystwyth yn cefnogi'r gallu i weithio gartref, yn enwedig i'r rheiny mewn meysydd gwaith proffesiynol a meysydd gwasanaeth.

- **Cyfleoedd gwaith o ansawdd uchel.** Mae twf mewn sectorau fel technoleg ynni a morol, ochr yn ochr â chynigion mwy proffesiynol ac o safon uwch mewn sectorau fel twristiaeth a lletygarwch yn cynnig mwy o gyfle i gael swyddi medrus iawn.

Darganfod

- **Cyrchfan dwristiaeth o safon byd-eang gyda brand a phresenoldeb marchnata cryfach fyth**. Ar ddechrau 2020/21 sefydlwyd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau gennym. Bu'r Bartneriaeth yn weithgar drwy gydol argyfwng COVID 19 drwy reoli ei effaith, gan gynnwys y cydbwysedd brau rhwng pryderon cymunedol ar y naill law ynghylch y posibilrwydd o gynyddu cyfraddau heintio a diogelu ar y llaw arall un o ddiwydiannau pwysicaf Sir Benfro.

- **Dewis ar gyfer digwyddiadau mawr**. Mae gan Sir Benfro enw da cynyddol am ddigwyddiadau mawr. Er bod COVID 19 yn golygu nad yw digwyddiadau mawr yn debygol o gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddod â digwyddiadau mawr yn ôl cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i wneud hynny. Mae gwerthusiadau o effaith digwyddiadau, yr ydym wedi'u cefnogi, wedi dangos potensial digwyddiadau mawr i ddod â Sir Benfro i sylw cynulleidfaoedd newydd.

Mesurau

Mae'r Cynllun Adferiad Economaidd yn cynnwys amrywiaeth o fesurau llwyddiant (megis cael gwasanaeth band eang ffibr llawn sy'n debyg i ardaloedd trefol) yn ogystal ag ystod o ddangosyddion, megis y gyfradd ddiweithdra ac, yn ein rhaglenni hyfforddi, nifer y bobl sy'n cwblhau cymwysterau cydnabyddedig.

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad lafur leol, megis y nifer sy'n Hawlio Hawliadau, yn agos iawn, ochr yn ochr â chasglu gwybodaeth am hyder busnesau lleol er mwyn canfod effaith COVID 19 ar yr economi leol.

Tai: Gwneud cartrefi fforddiadwy, gweddus ac addasadwy yn bosibl i bawb mewn lleoliadau cynaliadwy

Mae tai, yn enwedig adeiladu tai fforddiadwy, yn nodwedd gref o'r Rhaglen Weinyddu. Yn naturiol, mae tai yn nodwedd allweddol o weledigaeth y CDLl a CDLl2 ar Adnau gan mai'r Cynllun Datblygu Lleol yw un o'r ffyrdd y gellir sianelu twf tai tuag at leoliadau mwy cynaliadwy. Mae hefyd yn un o'r ffyrdd y gellir datblygu mwy o dai fforddiadwy. Mae'r canlyniadau o ran tai gweddus yn gyfraniad sylweddol i iechyd y cyhoedd. Rydym wedi datblygu "llyfr patrwm" i gefnogi ein rhaglen adeiladu newydd ar gyfer cartrefi cyngor newydd yn Sir Benfro.

Mae gan Sir Benfro gymhareb prisiau tai : enillion cymharol uchel, ond yn wahanol i lawer o leoedd yn Lloegr, mae ganddi brisiau tai cymharol isel. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ail gartrefi. Mae premiwm treth gyngor ar ail gartrefi wedi golygu bod gennym ddarlun llawer cliriach o nifer yr ail gartrefi, ac ym mha gymunedau y maent wedi'u lleoli, ond nid yw (eto) wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr ail gartrefi neu'r cartrefi a osodir fel tai gwyliau.

Mae materion tai cysylltiedig yn cynnwys datblygu tai gwarchod a chymorth mwy priodol (prynwyd Tŷ Haverfordia gan y Cyfrif Refeniw Tai a chaiff ei ailddatblygu fel cynllun tai gwarchod). Mae prosiect i wella'r ffordd y mae cwsmeriaid yn cofnodi ac yn olrhain gwaith atgyweirio yn cael ei ddatblygu.

Mae lleihau allyriadau carbon o dai yn her i'r dyfodol. Mae'r cyngor yn y broses o newid deg cartref adeiladu ansafonol am dai newydd sbon yn Tier Cross gan na fyddai wedi bod yn economaidd eu hadnewyddu i gyrraedd safonau adeiladu modern. Er ei bod yn debygol y gellid uwchraddio'r rhan fwyaf o'n stoc dai bresennol, mae hyn yn costio'n sylweddol. Y mwyaf o arian a neilltuir ar gyfer lleihau allyriadau carbon, y lleiaf o arian sydd ar gael ar gyfer adeiladu cartrefi newydd.

Mae gan brosiect 'cartrefi fel gorsafoedd pŵer' sy'n rhan o Fargen Dinas Bae Abertawe y potensial i leihau ôl troed carbon tai ledled Sir Benfro. Mae nifer o ddatblygiadau adeiladu newydd ym meddiant y cyngor wedi eu dylunio i fynd y tu hwnt i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, o ran effeithlonrwydd ynni gyda gofyniad i sicrhau sgôr EPC o A, gan gynnwys paneli haul, inswleiddio, a batris storio.

Yn ystod cyfnod cynllunio argyfwng COVID-19 rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod y rhai sy'n ddigartref wedi cael eu cynorthwyo a'u diogelu. Gan adeiladu ar hyn, gallwn yn awr weithio gyda chymorth y Llywodraeth i ddarparu dewisiadau eraill i'r digartref yn ein cymuned. Fe wnaethom roi dewisiadau tymor byr ar waith a bydd angen inni ystyried a gweithredu model cyflenwi newydd ar gyfer y digartref i ateb anghenion tymor hwy dinasyddion Sir Benfro.

Cyfunwyd maes tai a maes gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym wedi gweld gwelliannau yn y ddau faes gwasanaeth o ganlyniad i hyn, a gwell gwasanaeth i'n cwsmeriaid.

Yn y dyfodol, blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- Ysgogi arloesedd a gwelliant yn ein gwasanaethau tai, a chyflawni ein Cynllun Busnes 2020-50 uchelgeisiol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai drwy gyflawni datblygiadau'r Cyngor.
- Sicrhau gwelliannau hirdymor yn y gwasanaethau a ddarperir i'r digartref a datblygu cymorth mwy cyfannol i atal digartrefedd.
- Parhau â phrosiectau presennol i adeiladu mwy o dai fforddiadwy gan gynnwys rhaglenni adeiladu newydd yn cynnwys 33 o gartrefi ym Mharc Cranham yn Johnston, 140+ o gartrefi wedi eu cynllunio ym Mrynhir, Dinbych-y-pysgod (rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym mis Mehefin 2020) yn ogystal â sicrhau bod tir sy'n eiddo i'r cyngor ar gael i'w ddatblygu e.e. hen ysgolion Cas-lai, Hakin a Hubberston. Mae cynlluniau tai arloesol a'r agenda ddi-garbon yn allweddol i'n datblygiadau.
- Symud datblygiad yr Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol yn ei flaen yn Solfach, sy'n cael ei ariannu drwy bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a phremiwm y Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag.
- Parhau i wella ein rhyngwyneb â chwsmeriaid tai, gan wneud digidol y dewis cyntaf, er enghraifft, drwy weithredu modiwlau newydd yn ein meddalwedd rheoli tai newydd.
- Parhau i gefnogi pobl yn eu cartrefi. Er enghraifft, mae ein Cymorth Cartref a Mwy a lansiwyd yn ddiweddar yn wasanaeth y telir amdano, gan gynnwys glanhau, newid gwely, golchi dillad, smwddio, mynd â chi am dro, siopa a darpariaethau bwyd, sydd wedi ei fodelu o amgylch cleientiaid unigol.
- Parhau i wella ymgysylltiad â'n tenantiaid a chydgynhyrchu'r gwaith o wella mannau cymunedol a chydlyniant cymunedol.
- Darparu 'cartrefi' a chymunedau, nid tai ac ystadau yn unig.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r holl landlordiaid cymdeithasol yn Sir Benfro.
- Gweithio i leihau ôl-ddyledion rhent a chefnogi tenantiaid yn fuan gyda'u hanawsterau ariannol gyda model cefnogol i sicrhau mynediad at fudd-daliadau; rôl swyddog ymweld newydd.
- Parhau i adeiladu ar gyflawniadau SATC a gwelliannau i'n stoc.

Mesurau

Byddwn yn datblygu mesurau drwy gydol y flwyddyn.

Byddwn yn hybu balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle am ansawdd amgylcheddol eithriadol

Mae amgylchedd Sir Benfro yn sylfaenol i ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Rydym yn parhau i osod amcan llesiant ar gyfer y maes hwn oherwydd, er y gallwn dynnu sylw at lawer o enghreifftiau o reolaeth amgylcheddol a pholisïau effeithiol, mae ein hamgylchedd yn wynebu nifer o heriau.

Y bygythiad mwyaf i fio-amrywiaeth ein hamgylchedd (yn ogystal â chymdeithas ehangach) yw'r newid yn yr hinsawdd ac mae angen i'r camau gweithredu i hyrwyddo'r amgylchedd fynd ochr yn ochr â'r camau i leihau effaith y newid hwnnw.

Bydd yr amcan llesiant hwn yn cyfrannu at ffyniant (drwy dwristiaeth a'r potensial ar gyfer twf mewn swyddi sector amgylcheddol "gwyrdd" a "glas"), ac iechyd. Mae potensial hefyd i gyfrannu i faes Perthynas yn ein rhaglen Drawsnewid, wrth i lawer o bobl roi eu hamser yn wirfoddol i brosiectau amgylcheddol. Mae prosiect yr Eco-hyrwyddwyr, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ailgyfeirio ychydig yng ngoleuni COVID-19, yn dangos pa mor effeithiol y gall y dull hwn fod i godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad.

Mae'r Rhaglen Weinyddu yn cydnabod y ffordd y mae cynnal a diogelu ansawdd ein hamgylchedd yn gysylltiedig â'r balchder y mae pobl yn ei deimlo yn y Sir yn ei chyfanrwydd. Bydd manteisio ar ymdeimlad pobl o gyfrifoldeb dinesig a chymdeithasol yn gymorth i gadw Sir Benfro'n lân ac yn ddeniadol. Yn yr un modd, bydd hefyd yn ysgogi unigolion a chymunedau i weithredu ar faterion amgylcheddol ehangach fel y newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy.

Cryfhaodd y Cabinet ein gallu i gyflawni o ran cadw Sir Benfro'n lân ac yn daclus drwy ddyrannu mwy o adnoddau yn y gyllideb ar gyfer tipio anghyfreithlon a glanhau strydoedd. Dyrannodd gyllid pellach hefyd ar gyfer trwsio ffyrdd yn gyson yn ogystal â phot cyfalaf ar gyfer cynlluniau diogelwch bychain ar y ffyrdd. Mae COVID 19 wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth o daflu sbwriel a materion amgylcheddol eraill gan fod llawer mwy o bobl wedi bod yn cerdded o amgylch eu hardaloedd. Wrth i'r cyfnod clo ddirwyn i ben, rydym hefyd wedi ymateb i'r risg o fwy o sbwriel a difrod amgylcheddol arall drwy annog pobl i beidio ag ymroi i wersylla gwyllt, gan gynnwys mewn meysydd parcio.

Rhannwyd y camau gweithredu ar gyfer yr amcan hwn yn bum prif bennawd.

Lleihau allyriadau carbon. Yn 2019, datganodd y Cyngor argyfwng newid yn yr hinsawdd ac am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf, bu gweithgor yn edrych ar fentrau ac yn datblygu cynllun gweithredu. Ar yr adeg y pennwyd y gyllideb, nid oedd hyn wedi'i gostio ac ni wnaed dyraniad cyllideb penodol.

Rydym eisoes wedi gwneud sylwadau ar ein gwaith gyda phartneriaid ym Margen Dinas Bae Abertawe ar ynni adnewyddadwy morol a photensial yr economi hydrogen. Mae gwaith arall yn cynnwys prosiectau oedd wedi'u cynllunio, a gafodd eu hatal oherwydd COVID-19, megis canopi paneli solar ar gyfer maes parcio Neuadd y Sir a chynyddu nifer y pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan (ymhlith cynghorau Cymru, gan Sir Benfro mae'r nifer uchaf y pen eisoes o bwyntiau gwefru sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer ceir trydan).

Gwella bioamrywiaeth. Mae'r rhaglen Gyfalaf yn cynnwys cynllun gwerth £350 mil a rhagor ar gyfer seilwaith gwyrdd yn Hwlffordd. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ar osod pont droed newydd ar draws y Cleddau ychydig y tu allan i Hwlffordd, fydd yn cynnig mynediad llawer gwell i'r cyhoedd at lan yr afon ac sy'n rhan o brosiect Cleddau Reaches, cynllun seilwaith gwyrdd sy'n cael ei redeg gan Gyngor Sir Penfro (CSP) ac sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau. Bydd gwaith arall yn cynnwys adfer bioamrywiaeth ar y terasau bwrdais yng Nghastell Hwlffordd, argymhellion yn yr adolygiad o Ffermydd Sirol i ddefnyddio'r daliad tir hwn er budd amgylcheddol a gweithio gyda phartneriaid i reoli tir mewn ffordd sy'n cefnogi bioamrywiaeth, er enghraifft, amlder torri glaswellt.

Annog ffyrdd mwy ecogyfeillgar o deithio. Yn ystod rhan gyntaf y cyfnod clo, bu gostyngiad mewn llygredd aer, y mae llawer ohono'n cael ei gynhyrchu gan geir, faniau a lorïau, oherwydd gostyngiad yn swm y teithio. Er bod yr effaith hon yn llawer mwy amlwg mewn dinasoedd, mae wedi pwysleisio pwysigrwydd teithio llesol, sy'n gallu agor ardaloedd sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt i lawer mwy o bobl mewn ffordd sensitif, gan gynnwys pobl anabl. Mae ymestyn trac beicio drwy Goed Canaston yn enghraifft o hynny. Caiff grant Teithio Llesol £1.2 miliwn eleni ei rannu rhwng llwybr amlddefnyddiwr Arberth i Hwlffordd; Pecyn Teithio Llesol Llanusyllt (Saundersfoot) a Dinbych-y-pysgod a dyraniad craidd bychan.

Rheoli gwastraff. Rydym wedi llwyddo i wneud newidiadau i gasglu gwastraff yn ystod 2019-20 ac wedi cynyddu maint y deunydd ailgylchu yr ydym yn ei gasglu, gan reoli'n effeithiol y risg o ddirwy am beidio â chyrraedd targedau perthnasol. Mae goruchwyliaeth wedi'i chynnal drwy graffu. Drwy gydol gweddill y flwyddyn, byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd y mae'r newidiadau yn cael eu gweithredu.

Symud ein Cynllun Datblygu Lleol yn ei flaen. Ein cynllun datblygu lleol yw un o'r prif ffyrdd y byddwn yn sicrhau ansawdd amgylcheddol Sir Benfro yn y dyfodol. Yn ystod 2019-20, symudodd y CDLl newydd i'r Cam Adneuo. Yn ystod 2020-21 byddwn yn ymgynghori ar y Prif Newidiadau - diwygiadau i'r Cynllun ar Adnau, yng ngoleuni tystiolaeth newydd a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Rydym yn ailedrych ar ddulliau o drin canol trefi, ond hefyd yn cyflwyno polisïau penodol ar fand eang ac yn adolygu ein dulliau o ymdrin â thai a chyflogaeth. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno, bydd y Cynllun wedyn ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd.

Mesurau

Byddwn yn datblygu mesurau drwy gydol y flwyddyn. Mae nifer o ddangosyddion ar wastraff yr ydym eisoes yn adrodd arnynt i Lywodraeth Cymru.

Trawsnewid – Technoleg, Diwylliant a Pherthnasau

Mae'r tair is-adran nesaf yn ymwneud â'n rhaglen drawsnewid. Mae hon yn parhau i gael ei strwythuro o amgylch Technoleg, Diwylliant a Pherthnasau. Mae llawer o'r camau a fabwysiadwyd gennym eisoes fel rhan o'n Rhaglen Drawsnewid wedi gosod yr awdurdod mewn sefyllfa dda i ymateb i COVID 19.

Mae COVID 19 wedi newid y ffordd y mae pob sefydliad yn gweithredu. Mae'r newidiadau a wnaethom i wasanaethau fel rhan o'r camau ymateb neu adferiad yn gyfleoedd i ddysgu oddi wrth ymarfer da a'i nodi. Mae Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi pwysleisio pwysigrwydd dysgu sefydliadol ac mae'r Cyngor wedi sefydlu Cell Ddysgu Sefydliadol, sef tîm o bobl i edrych ar hyn fel rhan o'i broses o gynllunio adferiad. Bydd canfyddiadau a chanlyniadau'r gwaith hwn yn gymorth i sicrhau ailfodelu, adfer ac adnewyddu sefydliadol, ac yn gymorth i lywio'r ffordd y mae ein rhaglen Drawsnewid yn datblygu. Caiff y camau a restrir yn yr adran hon eu hategu a'u newid o bosibl gan y gwaith hwn.

Mabwysiadodd y Cabinet gyfres o Egwyddorion cryno ar gyfer Adferiad o Argyfwng COVID 19 yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020, ac roedd tair ohonynt yn arbennig o berthnasol i Drawsnewid. Mae'r rhain yn pwysleisio bod COVID 19 wedi newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu: ni allwn ac ni ddylem geisio dychwelyd i'r un ffordd yn union ag yr arferem weithio; mae COVID 19 wedi profi grym gweithredu cymunedol i wneud bywydau pobl yn well; ac mae COVID 19 wedi dangos grym dulliau cyfathrebu modern.

- Mae angen manteisio ar frys a rhoi ffyrdd newydd o weithredu ar waith gan gynnwys cwblhau ein prosiect gweithio'n Ddoethach. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailgynllunio'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau'n ddigidol.
- Rhaid inni adeiladu ar y gefnogaeth Gymunedol anhygoel a ddangoswyd yn ystod yr argyfwng hwn a pharhau i arwain gwaith partneriaeth ar draws pob sector.
- Byddwn yn adeiladu ar y dulliau cyfathrebu agored, tryloyw a modern a welwyd yn ystod y pandemig i ymgynghori, gwrando ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, trigolion a gweithwyr i feithrin perthnasau gwaith y gellir dibynnu arnynt, gan ddefnyddio'r holl lwybrau sydd ar gael.

Technoleg

Mae'n anodd goramcangyfrif y ffordd y mae technoleg cyfathrebu gwybodaeth wedi bod o gymorth i reoli'r ymateb i COVID-19 yn ogystal â'r ffordd y mae wedi galluogi'r cyngor fel sefydliad i barhau i weithredu a darparu gwasanaethau.

Mae ein prosiect gweithio Doethach wedi galluogi llawer o weithwyr i weithio gartref yn hytrach nag yn y swyddfa. Byddwn yn dysgu oddi wrth y profiad hwn i edrych ar ffyrdd o ddefnyddio ein swyddfeydd yn y dyfodol.

Mae COVID-19 wedi peri bod nifer fwy o wasanaethau'n cael eu darparu'n ddigidol ac mae arnom eisiau i'n cwsmeriaid ddewis y dull digidol yn gyntaf (lle gallant). Datblygwyd map ffordd digidol gennym ychydig cyn y cyfnod clo yn dangos y datblygiadau cynlluniedig. Mae hwn yn cynnwys prosiectau seilwaith allweddol megis gweithredu'r System Rheoli Arian a

Gwybodaeth a Rheoli Dogfennau'n Electronig yn ogystal â datblygiadau i wasanaethau sy'n wynebu cwsmeriaid megis Fy Nghyfrif, gan gynnwys y nodwedd Olrhain newydd.

Bydd y maes Technoleg yn cael ei gefnogi gan newidiadau mewn gwasanaethau a'r polisïau sy'n eu cefnogi, a hynny unwaith eto drwy adeiladu ar waith Dysgu Sefydliadol. Byddwn yn symleiddio Strategaethau, Polisïau a Chynlluniau i gyd-fynd â'r blaenoriaethau sefydliadol ar ôl Covid-19, byddwn yn ailedrych ar Flaenoriaethu Gwasanaethau ac yn cwblhau rhaglen Ailddylunio'r Broses Fusnes. Byddwn hefyd yn gweithredu'r Strategaeth Rheoli Data mewn symudiad tuag at fod yn Gyngor sy'n cael ei arwain gan ddata.

Diwylliant

Yn 2019-20, fe wnaethom gwblhau rhan gyntaf prosiect i newid y diwylliant sefydliadol tuag at un yn seiliedig ar ddysgu, pwrpas a chanlyniadau, drwy gytuno ar safonau ymddygiad newydd sy'n berthnasol ar draws y sefydliad. Mae arnom eisiau ymgorffori diwylliant cadarnhaol yn ein strwythurau llywodraethu a'n gweithlu.

Byddwn yn parhau i gyflwyno hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o'r safonau ymddygiad newydd; Tarfwyd ar y rhaglen hyfforddi arfaethedig gan yr ymateb i COVID 19. Bwriadwn gysylltu hyn ag arfarnu perfformiad.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â gweithwyr, er enghraifft, drwy arolygon staff (mewn amrywiol ffurfiau) ac yn datblygu mecanweithiau mwy cynhwysol o gwmpas cynllunio gwasanaethau/cynllunio busnes Cyfarwyddiaethau.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r sefydliad a'r gweithlu'n barhaus, e.e. rheoli matrics ac edrych i mewn i'r potensial o gael swyddi mwy generig yn seiliedig o gwmpas teuluoedd o swyddi.

Perthnasau

Mae'r elfen hon o'r rhaglen drawsnewid yn canolbwyntio ar newid ein perthynas â chymunedau; gan eu hannog i fod yn fwy hunanddibynnol. Nid yw hyn yn golygu cerdded i ffwrdd oddi wrth ddarparu gwasanaethau, ond mae'n golygu y byddwn, dros amser, yn symud at rôl alluogi.

Mae'r Ganolfan Gymunedol a Rhwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro, a sefydlwyd mewn ymateb i COVID-19, wedi arwain at newid enfawr mewn cymorth cymunedol. Mae arnom eisiau adeiladu ar y rhwydweithiau gwirfoddoli oedd yn cynnal pobl yn ystod argyfwng COVID-19 i greu perthynas newydd gyda'n cymunedau.

Mae perthynas newydd yn gofyn am ddulliau cyfathrebu gwahanol. Er mai technoleg cyfathrebu gwybodaeth a wnaeth ei alluogi, bydd hefyd yn gofyn am newid mewn perthnasau a'n gallu i ymateb i farn cymunedau. Byddwn yn dyfeisio ac yn cyflwyno meddalwedd ymgynghori ac ymgysylltu newydd o'r enw Taro'r Bwrdd. Byddwn hefyd yn drafftio ac yn gweithredu Strategaeth Gyfathrebu newydd.

Blaenoriaethau o ran adnoddau

Cyllideb 2020-21

O ganlyniad i COVID-19, bydd angen diweddaru Cyllideb y Cyngor Sir ar gyfer 2020-21 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol Cryno 2020-21 i 2023-24, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2020 i adlewyrchu effaith ariannol COVID-19 ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Bydd y rhan fwyaf o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r incwm net a gollwyd ar gyfer Chwarteri 1 a 2 2019-20 yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyllid ychwanegol ar gyfer gweddill 2020-21. Penderfynodd y Cabinet greu cronfa Covid-19 wrth gefn o £1.806 miliwn, a glustnodwyd i ariannu pwysau ariannol parhaus disgwyliedig pandemig Covid-19 y flwyddyn hon ac yn y blynyddoedd i ddod.

Caiff Cynllun Ariannol Tymor Canol diwygiedig ei ddatblygu fydd yn gallu addasu i gyfnodau'r ymateb i Covid-19, sef y digwyddiad (argyfwng), yr adferiad a sefyllfa sefydlog. Mae'r Cyngor wedi symud o'r cyfnod argyfwng i gyfnod adferiad yr ymateb ac wedi datblygu Strategaeth Adfer.

O'i weld yn erbyn effaith COVID-19 nid yw'r cyd-destun ar gyfer cyllideb 2020-21 yn edrych mor berthnasol ag arfer, ond mae'n werth ailddatgan hyn er mwyn gwneud synnwyr o'r gyllideb.

- Ym mis Chwefror 2020, gwelwyd lleddfu llymder a'r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus. Roedd Sir Benfro wedi derbyn setliad cyllideb da (Cyllid Allanol Cyfunol). Y cynnydd ar gyfer Sir Benfro oedd 4.9% (£8.051 miliwn) ar ôl ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau i'r setliad ac roedd yn llawer uwch o'i gymharu ag awdurdodau eraill nag y buasai mewn blynyddoedd o'r blaen, gan arwain at fwlch ariannu o £6.5 miliwn. Fodd bynnag, roedd y gyllideb yn dal i fod angen £5.1 miliwn oedd i gael eu canfod drwy arbedion effeithlonrwydd / gostyngiadau mewn gwasanaethau / incwm ychwanegol gyda chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. £3.0 miliwn, ar ôl ystyried eitemau twf o £1.6 miliwn.
- Mae'n werth nodi hefyd bod blaenoriaethau'r Rhaglen Weinyddu wedi dylanwadu mwy ar gyllideb mis Chwefror 2020 nag y gwnaethai yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r Cabinet wedi nodi meysydd twf, mewn Addysg a Gofal Cymdeithasol yn bennaf ond mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau rheng flaen sydd o dan straen megis digartrefedd, trwsio priffyrdd, cynllunio, amddiffyn y cyhoedd a gwasanaethau amgylcheddol lleol fel gwastraff, glanhau strydoedd a thipio anghyfreithlon. Cytunodd y Cyngor hefyd ar gyllid wrth gefn y Rhaglen Weinyddu: Cynlluniau Diogelwch ar y Ffyrdd; Ailstrwythuro Adfywio; Gwella Rhaglenni Addysgu ac Arweinyddiaeth gydag Ysgolion a mynd i'r afael â Thyllau ar ffyrdd / Arwynebau Ffyrdd gwael.

Cytunodd y Cyngor ar gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, yn agos at y cynnydd cyfartalog ar gyfer Awdurdodau Cymru. Gan Gyngor Sir Penfro y mae'r Dreth Gyngor isaf sy'n cyfateb i Fand D i ddibenion Cynghorau Sir yng Nghymru ac o ganlyniad gan Sir Benfro mae'r diffyg mwyaf rhwng ei wariant gwirioneddol a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd angen iddi ei wario i ddarparu gwasanaethau, ei Hasesiad Gwariant Safonol (SSA).

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn gynnar yn 2020. Roedd cefnogaeth gyffredinol gan y cyhoedd i gynigion twf y Cabinet, yn enwedig ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor.

Rhestrir crynodeb o Wariant Refeniw 2020-21 a sut y mae'n cymharu â'r gwariant yn 2019-20 isod. Mae'n werth nodi ei bod yn debygol y bydd symudiad yn y cyllidebau hyn oherwydd COVID-19.

Cyfnod 5 Cyllideb Gwariant Net Dreigl 2019-20 £000'au	**CRYNODEB**	**2020-21 Amcangyfrif o Wariant Net £000's**
70,563	Gwasanaethau Addysg - Cyllidebau Ysgolion Unigol	75,517
18,074	Gwasanaethau Addysg - Arall	19,351
13,362	Gofal Cymdeithasol - Plant	14,395
51,554	Gofal Cymdeithasol – Oedolion	55,082
1,133	Cronfa Gyffredinol Tai	1,190
0	Cyfrif Refeniw Tai (Neilltuo)	0
7,947	Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant	8,566
5,770	Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	6,103
1,683	Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu	1,714
13,969	Gwasanaethau Amgylcheddol	15,322
9,500	Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	9,710
7,557	Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd	8,027
334	Gwasanaethau Llys	334
0	Arbediad Ailstrwythuro Corfforaethol	(365)
1,000	Wrth gefn	1,249
202,446	CYFANSWM CYLLIDEBAU'R GWASANAETHAU	216,195
7,556	Ardollau	8,159
(285)	Incwm Buddsoddi Net	(362)
11,749	Costau Ariannu Cyfalaf (gan gynnwys MRP)	11,468
221,466	**GOFYNIAD CYLLIDEB Y CYNGOR**	**235,460**

Cyfalaf

Mae papurau cyllideb y Cyngor yn cynnwys manylion y Rhaglen Gyfalaf fel y cytunwyd ar y pryd. Mae arian cyfalaf yn aml yn golygu arian grantiau neu gyfraniadau gan sefydliadau eraill ac mae'n fwy anodd rhagweld yn fanwl gywir ym mha flwyddyn yn union y bydd ar brosiectau angen arian.

Mae'r tabl canlynol yn nodi gwariant arfaethedig, fel ym mis Chwefror 2020, ar dair elfen y gwariant cyfalaf: y rhaglen gyfalaf, rhaglen adeiladu Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif

Refeniw Tai. Ariennir cyllid cyfalaf o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys benthyca. Mae gan y gyllideb adran ar fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf ac mae cyflwyno cap ar gostau Ariannu Cyfalaf (Net o'r Cyfrif Refeniw Tai a Menter Benthyca Llywodraeth Leol) o £14 miliwn y flwyddyn yn gymorth i fynd i'r afael â fforddiadwyedd.

	Rhagamcan o alldro 2019-20	**Amcangyfrif 2020-21**	**Amcangyfrif 2021-22**	**Amcangyfrif 2022-23**	**Amcangyfrif 2023-24**
Rhaglen Gyfalaf	39.5	28.9	16.8	5.1	4.2
21ain Ganrif:					
Band A	6.8	0.1	0.0	0.0	0.0
Band B	4.3	20.2	40.8	26.9	13.9
Cyfrif Refeniw Tai	10.1	22.0	16.9	16.0	15.6
CYFANSWM	**60.7**	**71.2**	**74.5**	**48.0**	**33.7**

Cymryd rhan

Mae Cynllunio Corfforaethol yn dibynnu ar adborth gan ein rhanddeiliaid, ac ar gyfer eleni, mae hyn yn fwy gwir nag erioed.

Bydd y camau gweithredu a restrir yn yr Adran Drawsnewid, megis cyflwyno meddalwedd ymgynghori ac ymgysylltu newydd a datblygu strategaeth gyfathrebu newydd yn ein cynorthwyo yn y dasg hon.

Mae cyd-gynhyrchu gwasanaethau, rhywbeth sydd wrth wraidd elfen perthynas ein Rhaglen Drawsnewid yn ffordd hynod ymarferol arall yr hoffem i bobl gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cyfnod digynsail hwn.

Ceir manylion y ffordd i wneud sylwadau ar y Cynllun hwn ar flaen y ddogfen hon.